# Cynigion y BBC ar gyfer BBC Radio Cymru 2

1.1 Ar 27 Medi 2023, cyhoeddodd y BBC ei Brawf Lles y Cyhoedd i ymestyn nifer yr oriau Cymraeg gwreiddiol a gynigir gan BBC Radio Cymru 2 fel ei fod yn dod yn Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn ei rinwedd ei hun.

1.2 Rydym wedi cael y fantais o drafod y newid hwn yn gynnar gyda'r BBC, ac rydym yn fodlon y byddai graddfa'r newid yng nghynnig y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Radio Cymru 2 ddod yn orsaf radio newydd ac felly'n Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU. O dan y Cytundeb Fframwaith rhwng y BBC a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon (y Cytundeb), mae cyflwyno Gwasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU yn newid sylweddol ac felly'n destun asesiad cystadleuaeth gan Ofcom.[1]

1.3 Rydym yn fodlon bod y BBC wedi rhoi cyfle addas i bartïon y gallai hynny effeithio arnynt o bosibl roi sylwadau ar brawf lles y cyhoedd y BBC a bod natur y dadansoddiad o'r farchnad a gynhaliwyd gan y BBC o effaith bosibl y newid arfaethedig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol yn briodol a chymesur. Ein bwriad, felly, yw cynnal asesiad byrrach o lai na chwe mis. Rydym yn cadw'r opsiwn i droi hwn yn asesiad cystadleuaeth llawn y BBC os yw'r materion sy'n codi yn cyfiawnhau hynny. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein dull gweithredu erbyn 11 Hydref 2023 at BBCRadioCymru2.assessment@ofcom.org.uk.

## Cefndir

1.4 Cenhadaeth y BBC yw gweithredu er lles y cyhoedd, gan wasanaethu pob cynulleidfa drwy ddarparu cynnyrch a gwasanaethau diduedd, unigryw o ansawdd uchel sy'n hysbysu, yn addysgu ac yn diddanu. Er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ddarparu rhaglenni sy'n cyflawni ei genhadaeth, gall y BBC ystyried gwneud newidiadau i'w weithgareddau presennol neu geisio datblygu gwasanaethau newydd i ddiwallu anghenion cynulleidfaoedd.

1.5 Mae modd ystyried bod rhai newidiadau yn rhai bach, er enghraifft penderfyniadau golygyddol o ddydd i ddydd am raglenni unigol neu eu hamserlen. Fodd bynnag, gan fod y BBC yn sefydliad mawr sy'n cael arian cyhoeddus, gallai newidiadau eraill y mae'n dymuno eu gwneud, fel cyflwyno Gwasanaethau Cyhoeddus newydd yn y DU, effeithio'n sylweddol ar gystadleuaeth yn y farchnad cyfryngau ehangach.

1.6 O dan delerau'r Cytundeb,[2] ni chaiff y BBC wneud 'newid sylweddol' i'w Wasanaethau Cyhoeddus yn y DU oni bai bod y BBC yn dod i'r casgliad bod unrhyw gynnig o'r fath yn bodloni Prawf Lles y Cyhoedd. Wedi hynny, bydd Prawf Lles y Cyhoedd ond yn cael ei fodloni os bydd Bwrdd y BBC yn penderfynu:

a) bod y cynnig arfaethedig yn cyfrannu at genhadaeth y BBC ac at hyrwyddo o leiaf un o'r dibenion cyhoeddus;

[1] Cytundeb Fframwaith y BBC
[2] Cytundeb Fframwaith y BBC

b) bod camau rhesymol wedi cael eu cymryd i sicrhau na fydd y cynnig yn cael unrhyw effeithiau niweidiol diangen ar gystadleuaeth deg ac effeithiol; a

c) bod gwerth cyhoeddus y newid arfaethedig yn cyfiawnhau unrhyw effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol.

1.7 Penderfynodd y BBC y byddai ei gynnig i ymestyn nifer yr oriau Cymraeg gwreiddiol sy'n cael eu cynnig gan BBC Radio Cymru 2 yn golygu newid sylweddol i'w wasanaethau oherwydd, fel y cytunwyd ag Ofcom, byddai graddfa'r newid hwn yn golygu y byddai'n rhaid iddo ddod yn Wasanaeth Cyhoeddus yn y DU yn ei rinwedd ei hun. Cynhaliodd Brawf Lles y Cyhoedd yn ystod haf 2023, a chyhoeddodd ei ganfyddiadau a'i dystiolaeth ategol ar 27 Medi 2023, gan ddatgan bod Bwrdd y BBC o'r farn i'r Prawf Lles y Cyhoedd gael ei fodloni.[3]

## Cynnig y BBC

1.8 Mae'r BBC yn cynnig ymestyn nifer yr oriau gwreiddiol Cymraeg a ddarlledir ar BBC Radio Cymru 2. Mae'n datgan y byddai hyn yn sicrhau bod cynulleidfaoedd ar draws Cymru yn cael eu gwasanaethu'n well drwy gael mynediad at raglenni Cymraeg am y rhan fwyaf o'u diwrnod ac y byddai'n rhoi'r cyfle iddynt wrando a dysgu mwy o'r Gymraeg. Mae cynnig y BBC yn nodi bod y gwasanaeth yn targedu siaradwyr Cymraeg neu unigolion sy'n awyddus i wrando ar gynnwys Cymraeg rhwng 25 a 54 oed, yn enwedig siaradwyr Cymraeg sy'n llai rhugl.

1.9 Ar hyn o bryd mae BBC Radio Cymru 2 yn cynnig 25 awr yr wythnos o raglenni cerddoriaeth ac adloniant fel dewis arall yn lle prif orsaf radio Gymraeg y BBC, Radio Cymru. Mae'r BBC yn bwriadu ymestyn nifer yr oriau gwreiddiol sy'n cael eu darlledu yn Gymraeg o 25 i 61.5 awr yr wythnos ar BBC Radio Cymru 2. Mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarlledu ar draws Cymru ar DAB. Mae hefyd ar gael ar BBC Sounds, apiau ar-lein eraill, seinyddion clyfar a theledu digidol.

1.10 Mae cynllun y BBC ar gyfer y gwasanaeth yn cynnig:

- Cyllideb costau gweithredu a chynnwys ar gyfer yr orsaf sy'n dod i gyfanswm o £420k y flwyddyn, cynnydd o £10k yng nghyllideb gyfredol Radio Cymru 2. Bydd y BBC yn ariannu'r estyniad drwy ailflaenoriaethu cyllid gan BBC Radio Cymru. Mae'r BBC yn datgan na fydd hyn yn effeithio ar ddarpariaeth gwasanaeth Radio Cymru.
- Cyfuniad o gynnwys o dan arweiniad cyflwynwyr a sioeau â rhestrau chwarae wedi'u recordio ymlaen llaw. Byddai Radio Cymru 2 yn troi'n orsaf radio 18.5 awr y dydd a fyddai'n gweithredu rhwng 5.30am a hanner nos yn ddyddiol.
- Cymraeg yn unig fyddai iaith cyflwyno Radio Cymru 2 a byddai o leiaf 50% o'i cherddoriaeth yn Gymraeg o ran cyfanswm ac ym mhob bloc rhaglenni.
- Bwletinau newyddion wedi'u trefnu ar gyfer 8am, 9am, 10am, 11am a hanner dydd.

1.11 Nid yw'r cynnig yn effeithio ar amodau ein Trwydded Weithredu ar gyfer BBC Radio Cymru.

[3] Prawf Lles y Cyhoedd BBC Radio Cymru 2, 27 Medi 2023

# Rôl Ofcom

1.12 Os yw Bwrdd y BBC yn dod i'r casgliad bod Prawf Lles y Cyhoedd wedi'i fodloni, rhaid i Ofcom gynnal ei asesiad ei hun o'r cynigion cyn y gellir rhoi newid ar waith. Mae'r Cytundeb yn rhannu gwaith Ofcom yn ddau gam. Yn ystod y cam cyntaf, y mae'n rhaid ei gwblhau o fewn chwe wythnos, mae'n ofynnol i Ofcom wneud y canlynol:

a) cadarnhau a yw cynnig y BBC yn un sylweddol; ac, os felly
b) penderfynu ar ba ffurf y dylai ein hasesiad fod yn ystod yr ail gam.

# Sylweddolrwydd

1.13 Rydym yn fodlon y byddai graddfa'r newid yng nghynnig y BBC yn ei gwneud yn ofynnol i Radio Cymru 2 ddod yn orsaf radio newydd ac felly'n Wasanaeth Cyhoeddus newydd yn y DU. O'r herwydd, rydym wedi dod i'r casgliad bod hwn yn newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y DU.

# Lle ar gyfer asesiad pellach

1.14 O dan delerau'r Cytundeb, rhaid i'n hasesiad fod ar ffurf un ai Asesiad Cystadleuaeth y BBC (BCA) neu Asesiad Byrrach (SA). Yn ein dogfen arweiniad, *Assessing the impact of proposed changes to the BBC's public service activities*, rydym yn egluro:

a) bod BCA yn fwy tebygol o fod yn briodol "pan fydd cynnig yn codi materion mawr, cymhleth a/neu arbennig o ddadleuol, a allai gynnwys nifer o bartïon sydd â diddordeb a ffyrdd lle gallai fod effaith niweidiol ar gystadleuaeth deg ac effeithiol"; ond
b) bod Asesiad Byrrach yn debygol os "oes ystod lai o faterion i'w hystyried," er enghraifft pan fyddwn yn ystyried bod prawf lles y cyhoedd y BBC "yn rhoi sylw digonol i'r holl faterion (neu'r rhan fwyaf)".

1.15 Yn y ddogfen arweiniad hon, rydym yn nodi'r ffactorau roeddem yn disgwyl eu hystyried wrth benderfynu pa asesiad sydd fwyaf priodol, gan gynnwys:

- trylwyredd, ansawdd a chydbwysedd Prawf Lles y Cyhoedd y BBC;
- tebygolrwydd canlyniad heblaw clirio diamod;
- a oes elfen wahanadwy o'r cynnig sy'n achosi pryder, tra bod yr elfennau eraill yn achosi fawr o bryderon; a
- pha mor gymesur yw'r adnoddau sydd eu hangen.

1.16 Ein bwriad yw cynnal asesiad byrrach oherwydd y canlynol:

- rydym o'r farn bod y BBC wedi cynnal dadansoddiad priodol o'r farchnad i gefnogi ei asesiad o effeithiau ei gynnig ar gystadleuaeth. Mae'n annhebygol y bydd dadansoddiad pellach gan Ofcom o effeithiau'r farchnad yn rhoi llawer mwy o olwg ychwanegol ar effaith y cynnig ar gystadleuaeth deg ac effeithiol;
- rydym o'r farn bod partïon y gallai hyn effeithio arnynt wedi cael cyfle addas i roi sylwadau ar Brawf Lles y Cyhoedd y BBC drwy'r ymgynghoriad ar y prawf hwnnw;
- rydym yn cydnabod bod gan gynnig y BBC y potensial i sicrhau gwerth cyhoeddus drwy wasanaethu cynulleidfaoedd yng Nghymru yn well, yn enwedig ar gyfer siaradwyr Cymraeg neu unigolion sy'n awyddus i wrando ar gynnwys Cymraeg; ac
- mae asesiad byrrach yn gymesur ar gyfer yr adnoddau sydd eu hangen.

1.17 Rydym yn cadw'r opsiwn i droi hwn yn asesiad cystadleuaeth llawn y BBC os yw'r materion sy'n codi yn cyfiawnhau hynny. Rydym yn croesawu sylwadau ar ein dull gweithredu erbyn 11 Hydref 2023 at BBCRadioCymru2.assessment@ofcom.org.uk.